

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed i
Dduw fendithio ein haddoliad.

Byddaf fi'n arwain y ddwy oedfa yn
Neiniolen, am 9.30 a 5.00 o'r gloch.

Bydd yr oedfaon yn Capel Coch am
10.00 a 5.00 o'r gloch dan arweiniad
Mr John H Hughes. Diolch iddo am ei
gymorth unwaith eto. Bydd yr Ysgol
Sul am 11.15 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd
heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o
bryd.

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri
Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r
gloch, ddydd Mawrth, Rhagfyr 9 er
budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cyfarfod Nadolig Cymdeithas
Undebol Llanberis am 7.00 o'r gloch nos
Fawrth, Rhagfyr 9 yng ngofal Mrs
Gwenno Pritchard a'r Gweinidog.

Croeso cynnes i bawb ohonch i ymuno â
ni yn y cyfarfod hwn. Bydd paned a
mins pei ar y diwedd.

Gwefan

Cofiwch am wefan Yr Ofalaeth. Roedd
yn ddiddorol gweld y cylchgrawn *Golwg*
yn dyfynnu o rifyn y Sul diwethaf o
Gronyn ar ôl dod o hyd iddo ar y We.

gronyn.wordpress.com

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 14: Bydd yr Ysgol
Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir
am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor
Lewis, Hen Golwyn.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Rhagfyr 9: Bore Ciffi
am 10.45 o'r gloch.

Nos Fawrth, Rhagfyr 9: Cyfarfod
Nadolig y Gymdeithas Undebol am 7.00
o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 12: CIC rhwng
7.00 a 8.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 14: Gwasanaethir
am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.
Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.
Yn oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch ceir
Gwasanaeth Nadolig Undebol Naw Llith
a Charol. Gwneir casgliad arbennig at
Gynllun Efe.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 14: Gwasanaethir
am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Rhagfyr 12: Bydd y
Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro
rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 616 – Dydd Sul, 07 Rhagfyr, 2014

Adventus

'Dyfodiad' yw ystyr y gair Lladin
'adventus' a roddodd i ni'r term Adfent
am y cyfnod yn arwain at y Nadolig.
Mae tymor yr Adfent yn cychwyn ar y
pedwerydd Sul cyn y Nadolig (neu'r
Sul agosaf at Ddydd Gŵyl Andreas ar
Dachwedd 30. Heddiw, felly, ydi ail
Sul y tymor hwn eleni.

Mae'r Adfent yn ymwneud â'r disgwyl
am y Meseia, ac yn dathlu'r gobaith a'r
tangnefedd a'r cariad a'r llawenydd a
ddaw trwy ei ddyfodiad. Dros gyfnod
yr Adfent, edrychir ymlaen bob
blwyddyn at ddathlu dyfodiad Iesu
Grist sy'n dwyn yr holl bethau hyn i ni.

Yn naturiol, felly, mae'r edrych ymlaen
at ddydd Nadolig yn golygu edrych yn
ôl dros y canrifoedd. Edrych nôl ar
broffwydoliaethau'r Hen Destament
am y Meseia i ddechrau, ac edrych yn
ôl ar adroddiadau'r Testament Newydd
am eni'r Iesu, a oedd yn gyflawniad o'r
holl broffwydoliaethau hynny. Mewn
rhyw ystyr, yr ydym yn rhannu profiad
pobl dduwiol – fel Simeon ac Anna, y
ceir eu hanes Efengyl Luc – a fu'n aros
ar hyd eu hoes am ddyfodiad y Meseia.
Ond mae ein profiad ni'n wahanol iawn
hefyd gan mai cofio geni Iesu a wnawn
ni, ac nid edrych ymlaen ato. Edrych
ymlaen at ei ddathlu a'i gyhoeddi o'r
newydd trwy ddathliadau'r Nadolig a
wnawn ni. Disgwyl ei ddyfodiad, heb
wybod pryd y digwyddai hynny, a wnâi
Anna a Simeon a'u tebyg; cofio ei eni a
wnawn ni, gan wybod pryd a lle y
daeth. Ond mae'n ddigwyddiad mor
fawr nes bod yr Eglwys Gristnogol yn

medru edrych ymlaen yn ddisgwylgar
bob blwyddyn at ei gofio a'i ddathlu.

Dal i aros am ddyfodiad y Meseia y
mae'r Iddewon, heb dderbyn iddo
ddod ym mherson Iesu Grist. Ac mor
drist yw hynny, gan eu bod yn disgwyl
am un sydd eisoes wedi dod.

Ond mae yna wedd arall i'r disgwyl a'r
edrych ymlaen a gysylltwn â'r Adfent
gan fod yr Eglwys Gristnogol yn
Nhyr ym yr Adfent yn rhoi sylw hefyd i
Ailddyfodiad Iesu Grist. Fe gofiwn
fod Iesu wedi dod ac iddo gael ei eni
ym Methlehem, ond fe gofiwn hefyd
fod Iesu i ddod eto, yn frenin ac yn
farnwr. Rhyw ddydd, na wyddom
pryd, fe ddaw Iesu eto. Bryd hynny,
bydd pawb yn sylweddoli mai ef yw'r
Arglwydd. Bydd yn dod eto yn Nydd
y Farn i gymryd ei bobl – y rhai a fydd
wedi credu ym mhob oes – i fod gydag
ef am byth. Yn yr ystyr hwn, nid yw
Iesu wedi dod eto ac y mae ei Eglwys
yn dal i ddisgwyl ac yn edrych ymlaen
at ei weld yn dod 'ar gymylau'r nef'.

Ac fel na wyddai Simeon ac Anna a
phawb tebyg iddynt pryd y deuai'r
Meseia syntaf ni wyddom ninnau pryd
y daw yr ail waith. Ond wrth gofio
dyfodiad cyntaf Crist, a'r gobaith a'r
tangnefedd a'r cariad a'r llawenydd a
ddaeth gydag ef, mae Cristnogion yn
edrych ymlaen at ei ailddyfodiad, a'r
cyfan y bydd hynny yn ei olygu. A
beth yw hynny? Yn syml iawn, 'ac
felly byddwn gyda'r Arglwydd yn
barhaus' (1 Thesalonïad 4:17).